# Gweithdrefn sylwadau, canmoliaeth a chwynion

### Pwy all wneud sylwadau, canmol neu gwyno?

Gall unrhyw berson neu sefydliad ddefnyddio'r weithdrefn hon i wneud sylw, rhoi canmoliaeth neu wneud cwyn am Age Cymru, ei wasanaethau neu ei staff[i].

### Beth all y sylw, canmoliaeth neu gŵyn fod amdano?

Gall sylwadau, canmoliaeth a chwynion ymdrin ag unrhyw agwedd ar waith Age Cymru, gan gynnwys:

- unrhyw weithgaredd a gynhelir gan Age Cymru
- unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Age Cymru
- ymddygiad unrhyw staff a gyflogir gan neu sy'n gweithio ar ran Age Cymru.

### Gwneud sylw neu rannu canmoliaeth

Os hoffai unrhyw un wneud sylw ar unrhyw agwedd ar waith Age Cymru neu ganmol Age Cymru yn gyffredinol neu unrhyw aelod penodol o staff Age Cymru, gallant wneud hynny yn syml drwy ofyn bod eu sylwadau neu'u canmoliaeth yn cael eu cofnodi a'u trosglwyddo at y Pennaeth Gweithrediadau fel rhan o'r weithdrefn hon. Bydd pob sylw a chanmoliaeth yn cael ei gydnabod yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith.

### Gwneud cwyn

Er mai nod Age Cymru a'i staff yw darparu gwybodaeth, gwasanaethau a chymorth mewn ffordd gyfeillgar ac effeithiol, mae yna adegau pan fydd pethau'n mynd o'i le. Bydd ein gweithdrefn gwyno yn ein helpu i ddelio â phryderon ein defnyddwyr mewn ffordd gyson, i nodi meysydd lle gellid datblygu polisïau a mentrau newydd ac i wella ansawdd cyffredinol ein gwasanaeth a chefnogaeth. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni gofnodi canmoliaeth ac awgrymiadau am ein gwaith.

Bwriedir i'r weithdrefn fod yn hawdd i'w defnyddio, yn gyflym ac yn deg. Bydd y weithdrefn yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru.

*Proses Anffurfiol*

Y gobaith yw y gellir ymdrin â'r gwyn mewn ffordd anffurfiol yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd cwyn ysgrifenedig yn cael ei chydnabod o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl ei derbyn a'i throsglwyddo i'r person mwyaf priodol, fel arfer y rheolwr sy'n gyfrifol am y maes gwaith hwnnw:

- Bydd cwyn dros y ffôn, pryd bynnag y bo'n bosibl, yn cael ei thrin gan berson sy'n derbyn yr alwad neu os yw'n fwy priodol bydd yn cael ei throsglwyddo i gydweithiwr
- Byddwn yn ceisio datrys pob cwyn anffurfiol o fewn 10 diwrnod gwaith wedi i ni ei dderbyn
- ym mhob achos, bydd manylion y gwyn a'r canlyniad yn cael eu cofnodi a'u hanfon ymlaen at y Pennaeth Gweithrediadau.

*Proses Ffurfiol – Cam 1*
Os na allwch ddatrys y mater yn anffurfiol, dylech ysgrifennu at y Pennaeth Gweithrediadau gan ddefnyddio'r cyfeiriad isod sydd wedi'i farcio fel **'Cyfrinachol'** (*ac eithrio pan fo'r gwyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Pennaeth Gweithrediadau, ac yn yr achos hwnnw dylech ysgrifennu at Brif Weithredwr Age Cymru gan ddefnyddio'r un cyfeiriad).* Os yw'ch cwyn yn ymwneud ag ymddiriedolwr Age Cymru, yn hytrach nag aelod o staff Age Cymru, dylech ysgrifennu yn ffurfiol at Gadeirydd Age Cymru.

Yn eich llythyr dylech nodi manylion eich cwyn, y canlyniadau i chi o ganlyniad a'r ateb rydych chi'n ei geisio. Gallwch ddisgwyl i'ch cwyn gael ei chydnabod o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl i ni ei dderbyn. Dylech dderbyn ymateb ac esboniad o fewn 25 diwrnod gwaith ar ôl i ni dderbyn y gwyn.

*Proses ffurfiol – Cam 2*

Os nad ydych yn fodlon â'r ymateb cychwynnol i'r gŵyn, yna gallwch ysgrifennu at Brif Weithredwr Age Cymru a gofyn iddyn nhw ymateb ac adolygu eich cwyn. Gallwch ddisgwyl i'r Prif Weithredwr gydnabod eich cais o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl iddyn nhw ei dderbyn ac ymateb o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl iddyn nhw dderbyn y gwyn.

*Proses ffurfiol – Cam Terfynol (Adolygiad)*
Os nad ydych yn fodlon â'r ateb dilynol gan y Prif Weithredwr, yna mae gennych yr opsiwn o ysgrifennu at Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn nodi'r rheswm pam rydych chi'n anfodlon â'r canlyniad. Rhaid i chi wneud hyn o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn yr ymateb ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr.

Bydd y Cadeirydd yn ymateb fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith i'ch hysbysu o'r camau a gymerir i graffu ar eich cwyn a phryd y gallwch ddisgwyl clywed canlyniad yr ymchwiliad.

*(Nod Age Cymru yw datrys pob mater cyn gynted â phosibl, ac mae'r amserlenni a roddir ar gyfer ymdrin ag ymateb i gwynion yn dangos hynny)*

**Age Cymru**
Tŷ'r Morwyr, Llys Trident
Heol Dwyrain Moors, Caerdydd, CF24 5TD
Ffôn: 029 20431555
E-bost:enquiries@agecymru.org.uk
www.agecymru.org.uk

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw Tŷ'r Morwyr, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd, CF24 5TD. © Age Cymru 2018

Hanes y Ddogfen

Fersiwn Dyddiad Perchennog Cymeradwy/Rheswm yr Awdur

| | | |
|---|---|---|
| Fersiwn 1 | Pennaeth Gweithrediadau | Adolygwyd 23.3.22 - Diwygio teitlau swyddi.<br>Adolygwyd 5.5.23 gan Bright HR<br>Adolygwyd Rhagfyr 2025 gan bwyllgor mewnol |

| **Rhif y Fersiwn** | **Dyddiad** | **Camau a gymerwyd** | **Adolygiad nesaf** |
|---|---|---|---|
| Fersiwn 1 | Mawrth 22<br>Mehefin 2023<br>Rhag 2025 | Diwygio teitlau swyddi<br>Adolygwyd gan Bright HR<br>Adolygwyd gan bwyllgor Polisi Mewnol | Rhagfyr 2026 |

Ni chaiff y ddogfen ei rheoli ar ôl ei hargraffu. Ewch i wefan Fewnrwyd Age Cymru i gael y fersiwn ddiweddaraf

---

[i] At ddibenion y polisi hwn, mae pob cyfeiriad at 'staff' yn cynnwys holl staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr Age Cymru.